# Cyngor Tref *NEFYN* Town Council

COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 08/11/2022 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Catrin Roberts (Cad) | Rhian Sanson | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Mared Llywelyn Williams |
| Janice Evans | Carys Roberts | Gito Williams | Gwynfor Jones | Pat Humphreys (Clerc) |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Gareth Jones, Alaw Llewelyn Roberts, Rhys Llewelyn a Lleucu Jones.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Dim.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 11/10/2022
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gwynfor Jones

4. **Unrhyw Fater Brys**
   **Cais Clwb Peldroed Penwaig Nefyn**
   Derbyniwyd cais gan Clwb Peldroed Penwaig Nefyn am ganiatad i osod sied wrth cae astro Bryn Mynach i storio yr offer maent yn eu ddefnyddio yn y sesiynau hyfforddi ar foreau Sadwrn.
   Penderfyniad: Cytuno mewn egwyddor ond y clerc i gysylltu hefo nhw i ofyn y canlynol:
   1. Sut fath o sied sydd ganddynt o dan sylw?
   2. Yn lle yn union maent eisiau ei rhoi?
   3. Faint fydd y sied yn debygol o gostio?

   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Rhian Sanson
   **Cerrig beddi ym mynwent Nefyn**
   Mae yna garreg fedd wedi disgyn ar draws y llwybr yn yr hen ran o'r fynwent felly mae angen ei chodi a'i rhoi i orwedd ar y bedd yn unol a rheolau'r fynwent. Mae'r garreg yma wedi cael ei gorchuddio gyda eiddew a tua pump neu chwech o gerrig eraill yn yr un cyflwr felly fe fydd angen cael gwared o'r eiddew yma. Dywedodd yr aelod lleol bydd rhaid ymchwilio i mewn i'r ffordd y mae hyn yn cael ei wneud yn iawn i'w atal rhan tyfu'n ôl felly mae'r clerc am wneud hyn.
   Penderfyniad: yr is-bwyllgor mynwentydd i fynd i'r fynwent i weld pa feddi sydd angen eu tacluso a'r clerc i gael gwybodaeth am y ffordd orau o dynnu'r eiddew oddi ar y cerrig beddi. Y clerc i ofyn i'r contractwyr sydd yn gwneud gwaith yn y fynwent ar y funud i symud y garreg sydd wedi disgyn ar draws y llwybr i orwedd ar y bedd.
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gwynfor Jones

5. **Cynllun Peilot Ardal Dwyfor** – Cyflwyniad
   Cafwyd cyflwyniad ar y Cynllun Peilot Ardal Dwyfor gan Steffan Smith gyda cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau ar y diwedd. Mae'r cynllun yma yn ymwneud hefo newidiadau i drethi ar ail gartrefi, llety gwyliau a trethi tir a newidiadau i'r rheolau cynllunio sy'n delio hefo newid defnydd eiddo o gartref i lety gwyliau a'u rôl nhw ydi monitro'r effaith mae'r newidiadau yma yn gael ar

gymunedau Dwyfor. Yr ail ran o'r cynllun peilot ydi cael mwy o dai fforddiadwy i bobol leol sy'n prynu am y tro cyntaf drwy'r cynllun prynu cartref ac yn sgil y peilot yma mae yna fwy o arian wedi cael ei glustnodi ar ei gyfer. Benthyciad yw'r cynllun prynu cartref sydd yn gwbwl ddi-log ac yn gallu bod rhwng 10% a 50% o werth yr eiddo ac nid oes raid ei dalu'n ôl nes mae'r eiddo yn cael ei werthu neu pan fydd y sawl sydd wedi cael menthyg yr arian wedi cynilo ddigon o arian i'w dalu nôl. Mae'n rhaid i'r ymgeiswyr ennill cyflog o rhwng £16,000 a £60,000 i fod yn gymwys ar gyfer y cynllun ac yn cael dewis eiddo sydd i fyny ar £300,000 mewn gwerth ac mae modd cofrestru ar gyfer y cynllun yma ar wefan Tai Teg. Mae Steffan Smith am anfon fwy o wybodaeth am y cynllun peilot i'r clerc gael ei yrru ymlaen i'r aelodau gan fod amser wedi mynd yn brin a diolchodd y cadeirydd iddo am y cyflwyniad.

6. **Cyllideb 2023-2024**

Mae'r Is-bwyllgor Ariannol wedi cael cyfarfod ac wedi creu cyllideb drwy edrych ar y gwariant am y flwyddyn llawn ddiwethaf sef 2021-2022 a gwariant 2022-2023 hyd yma.
Aeth cadeirydd yr Is-bwyllgor ariannol drwy'r gyllideb i egluro y ffigyrau. Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant yr un fath a rhai wedi cael eu codi ychydig oherwydd chwyddiant.
Mae cytundeb 3 blynedd llwybrau a mynwentydd yn dod i ben ar y 31/03/2023 felly mae'r clerc wedi rhoi hysbyseb tendr yn y papur lleol gyda dyddiad cau o 9fed o Ragfyr er mwyn dewis tendr ym mhwyllgor Rhagfyr. Unwaith y bydd y cytundebau wedi eu llenwi gellir rhoi'r ffigyrau cywir ar y gyllideb yn lle'r ffigyrau amcangyfrif sydd yna rwan a'i therfynnu a gosod y praesept.
Penderfyniad: rhoi'r gyllideb ar agenda mis nesaf i bawb gael cyfle i edrych drosti ac er mwyn cael y ffigyrau cywir ar gyfer y cytundebau llwybrau a mynwentydd.
Oherwydd fod un o'r aelodau wedi ymddiswyddo mae yna un sedd wag ar yr is-bwyllgor ariannol felly gofynnodd cadeirydd yr is-bwyllgor ariannol os oedd gan unrhyw ddiddordeb ynddi, 'roedd un o'r aelodau yn awyddus i fod ar yr is-bwyllgor felly mae'r sedd wag wedi ei llenwi.

7. **Sedd Wag**

Gan fod un o aelodau Nefyn wedi ymddiswyddo ar ôl y pwyllgor diwethaf fe aeth y clerc drwy'r broses o hysbysebu'r sedd wag a gofyn os oedd yr aelodau yn fodlon iddi hysbysu'r Swyddog Etholiadau fod gan CTN sedd wag a dechrau'r broses o'i llenwi.
Penderfyniad: cytunodd yr aelodau iddi wneud hynny.

8. **Dylunio afrbais y 3 pennog er mwyn ei rhoi ar un o fyriau Nefyn ac uwchben Siop Siarad –** dewis logo

Mae un o'r aelodau wedi gwneud 3 dyluniad gwahanol o arfbais i CTN ac fe wnaeth yr aelodau oedd yn bresennol yn y cyfarfod edrych arnynt. Oherwydd bod yr aelodau yn methu penderfynnu a bod yna aelodau yn absennol heno penderfynwyd anfon y dyluniadau i'r aelodau i gyd drwy ebost er mwyn i bawb adael i'r clerc wybod pa ddyluniad ydi'r gorau ganddynt. Cafwyd cynnig hefyd i wneud sticeri allan o'r arfbais hefo 'arianwyd gan CTN' arnynt a bob tro mae CTN yn rhoi cyfraniad ariannol i rhywun i brynnu rhywbeth byddai modd rhoi'r sticeri yma arno.

9. **Coed Nadolig a'r Gwasanaethau Goleuo –** diweddariad – Clerc

Diweddarwyd yr aelodau gan y clerc ar y trefniadau sydd ynghylch y coed nadolig a'r gwasanaethau goleuo. Mae bob dim wedi cael ei drefnu ar gyfer Edern a Morfa ac yn Nefyn dim ond dewis pwy sydd yn mynd i oleuo'r goeden sydd angen. Cafwyd cynnig eto eleni i ofyn i Dewi Pws oleuo'r

goeden ac hefyd i ofyn i blant Ysgol Nefyn ganu ychydig o ganeuon felly mae'r clerc am ofyn iddynt. Gofynwyd i'r clerc hefyd drefnu cau y ffyrdd o gwmpas y Groes er mwyn diogelwch a trefnu i'r Heddlu fod yno ac arwyddion 'ffordd ar gau' ar y pedwar lôn sy'n arwain at y Groes.
Cafwyd cynnig gan un o aelodau Edern i edrych i mewn i blannu coeden nadolig fel ei bod yno yn barhaol yn lle prynnu coeden bob blwyddyn a cytunodd un o aelodau Nefyn ei fod yn rhywbeth i edrych i mewn iddo ar gyfer y dyfodol.

**10. Gohebiaeth a Dderbyniwyd**

Dim.

**11. Ceisiadau Cynllunio**

**C22/0936/42/AC –** 77 Bro Gwylwyr, Nefyn - Cais ar gyfer newid amod 2 o ganiatad cynllunio C07D/0699/42/LL er mwyn newid dyluniad yr annedd bwriedig drwy ddarparu modurdy o faint llai, ymuno'r ports a'r ffenestr bae ar yr edrychiad blaen, dileu yr ystafell haul, newid pits y to ac ychwanegu paneli solar, newid maint a nifer o ffenestri a gorffen yr annedd a modurdy gyda rendr ar yr hanner uchaf a brics ar yr hanner gwaelod.
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

Ceisiadau Diweddarach
Dim.

**12. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1118.58
- Bacstal Pac – Gwasanaeth cyflogau - £160.50
- Cyngor Gwynedd – Rent y Rhandiroedd 2022-2023 - £100.00
- Cyngor Gwynedd – Toiledau Cyhoeddus 2022-2023 - £12000.00
- Christmas Tree Supplies – Coed Nadolig - £1350.00
- Ad-daliad taleb Cwt Tatws i'r cadeirydd - £50.00
- D. M. Parry – pumed taliad mynwent Morfa Nefyn ac ail daliad mynwent Fron - £315.00
- Cyngor Gwynedd – Traeth Nefyn Tymor 2022 - £5000.00
- Clerks & Councils Direct – Tanysgrifiad - £14.00
- Ashley Hughes – offer swyddfa - £59.34
- Cliff Hughes – Taliad 6 cytundeb & gwaith ychwanegol - £1622.00
- John Gwynfor Jones – agor bedd Elizabeth Davies Owen - £450.00
- RBL Poppy Appeal – 3 torch - £75.00
- Tyddyn Sachau – Blodau Nefyn - £69.96
- Robert Midwood – trwsio y cwch chwarae yn Cae Chwarae Bryn Mynach - £540.00

**Penderfyniad**: talu pob anfoneb.
Cynnig: Arfon Hughes  Eilio: Carys Roberts

**13. Taliadau wedi eu derbyn**

- Ashley Hughes – Coeden Nadolig Nefyn- £137.50
- Celtic Heritage Construction & Stonemasonry Ltd – Coeden Nadolig Morfa - £100.00

- Kelly’s Driving School – Coeden Nadolig Morfa - £25.00
- Elfed Roberts – Coeden Nadolig Nefyn - £137.50
- Sied DIY – Coeden Nadolig Morfa - £20.00
- Siop Gwyneth – Coeden Nadolig Morfa - £20.00
- Siop Pitstop – Coeden Nadolig Morfa - £35.00
- Bryn Noddfa – Coeden Nadolig Morfa - £35.00
- G D Roberts – angladd Hugh Jones Parry - £1200.00

Clerc: Pat Humphreys
Cae’r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts – 07880 737298